Cylch Meithrin y Bont-faen

Llawlyfr Rhieni

Cylch Meithrin y Bont-faen, Y Broad Shoard, Y Bont-Faen, CF71 7DA

01446 776250
cylchmeithrin@btconnect.com

Oriau: Dydd Llun – Dydd Gwener 9.00am - 3.00pm
Rhif Elusen: 1080166

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Croeso i Gylch Meithrin y Bont-faen!

Mae Cylch Meithrin y Bont-faen (y Cylch) yn gweithredu o dan adain Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM). Prif nod MYM yw rhoi cyfle i bob plentyn dros ddwy a hanner oed i fanteisio ar brofiadau cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r pwyslais ar addysg drwy chwarae gan fod chwarae yn sylfaenol i bob agwedd ar ddatblygiad plentyn.

Mae'r Cylch wedi'i gofrestru fel elusen gyda'r Comisiwn Elusennau. Mae'r Cylch yn dilyn rheolau a chanllawiau MYM ac yn cael ei arolygu yn flynyddol gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Mae'r Cylch hefyd yn cael ei arolygu gan ESTYN (Arolygiaeth ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) bob chwe blynedd. Arolygwyd Cylch Meithrin y Bont-faen ar 20 Ionawr 2009.

Derbyniodd y Cylch 6 Gradd 1 ar gyfer ansawdd addysgol a 4 Gradd 1 ychwanegol am ddarpariaeth addysgol a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu. Meddai'r Prif Arolygydd Mr Eifion Morgan, " Seilir yr addysgu'n gadarn ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas dda iawn yn amlwg rhwng oedolion a phlant a chyfranna hyn yn sylweddol at gynnydd, cyflawniadau a lles y plant. Gweithia'r ymarferwyr yn dda iawn fel tîm ac maent yn effeithlon iawn yn eu cefnogaeth o gynnydd a chyflawniadau'r plant." Cewch weld yr adroddiad llawn yn www.estyn.gov.uk

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Lleolir y Cylch mewn adeilad newydd ger Canolfan Chwaraeon y Bont-faen. Mae larwm gan yr adeilad newydd, yn ddiogel o fewn ei diriogaeth ei hun ac yn glynu at y gyfraith o ran mynediad i'r anabl. Tu allan mae safle chwarae meddal a gardd. Tu mewn i'r Cylch mae amrywiaeth o deganau, cornel dawel a thŷ bach twt a byrddau a chadeiriau i'r plant. Hefyd mae cyfrifiadur, y rhyngrwyd ac argraffydd.

Rheolir y Cylch gan Bwyllgor Rhieni . Gwirfoddolwyr yw pob aelod o'r Pwyllgor Rheoli. Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am yr holl waith o redeg y Cylch o ddydd i ddydd, ynghyd â'r ochr ariannol a phenodi a chyflogi staff. Mae'r Pwyllgor yn cyflogi staff parhaol ac yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion ynglŷn â chael cymhareb gywir o staff i bob plentyn. Mae gan Arweinydd y Cylch Ddiploma CACHE Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Plant yn y Blynyddoedd Cynnar ac mae pob aelod o'r staff wedi ei gofrestru gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. Mae'r staff hefyd yn dilyn cyrsiau cymorth cyntaf yn gyson a chyrsiau eraill a gynhelir gan MYM, e.e. amddiffyn plant, hylendid bwyd, iechyd a diogelwch ac ati.

Rydym yn gorff nid er elw ac yn talu cyflogau'r staff, gwneud cyfraniad tuag at gostau cynnal a chadw'r adeilad a chostau rhedeg y Cylch a phrynu offer ac ati drwy arian ffioedd y plant a threfnu gweithgareddau codi arian.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Gwybodaeth Gyffredinol

Pan fydd eich plentyn yn dechrau mynychu'r Cylch, fe fydd angen i chi gwblhau Ffurflen Gofrestru i sicrhau fod gan y Cylch yr holl wybodaeth angenrheidiol am eich plentyn. Fe fydd rhaid i chi hefyd ddarparu lluniau o'r bobl fydd yn casglu eich plentyn o'r Cylch. Fe gedwir yr holl wybodaeth hyn yn ddiogel ac yn gyfrinachol. Os ydych wedi trefnu ar unrhyw amser i berson newydd nad yw'r staff yn gyfarwydd ag ef i gasglu eich plentyn, mae system gair cudd yn gweithredu. Cysylltwch ag aelod o staff am ragor o fanylion pan fydd yr achlysur yn codi.

Mae'n bwysig eich bod yn cadw at yr amserau penodol gan nad oes gan y Cylch yswiriant i ofalu am blant cyn 9.00am ac ar ôl 3.00pm. Mae croeso i chi aros gyda'ch plentyn am gyfnod hyd nes bod y plentyn wedi ymgartrefu yn y Cylch ond fe welir bod hyn yn digwydd yn hawdd iawn.

Fe fydd y plant yn cael cyfle i chwarae gyda glud, paent ac ati felly peidiwch â danfon eich plentyn i'r Cylch yn ei ddillad gorau. Fe ddefnyddir ffedogau ond fe all damwain ddigwydd! Rydym yn annog y plant i wisgo welis i'r Cylch, oherwydd byddant yn treulio amser tu fas. Mae gwisgoedd tywydd gwlyb gennym.
Rydym yn annog y plant i fynd i'r tŷ bach yn ystod y bore ond mae damweiniau yn digwydd ac mae gennym ddigon o ddillad glân ar eu cyfer. Fe ofynnir i chi olchi a dychwelyd y dillad cyn gynted â phosib. Nid ydym yn annog plant i ddod â theganau i'r Cylch - os byddant yn dod â theganau, byddwn yn rhoi'r teganau i'r naill ochr hyd ddiwedd y sesiwn.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Cyfnod Sylfaen

Yr ydym wedi cymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen ers pedair blynedd. Bydd y Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddarparu yn addysg y blynyddoedd cynnar o fis Medi 2008. Byddwn yn meithrin eich plentyn trwy'r saith maes dysgu sef:
Iaith, Llythrynnedd a Chyfathrebu
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r byd
Datblygiad Personol, Cymdeithasol a Lles Datblygiad Mathemategol
Datblygiad Corfforol
Datblygiad Creadigol
Gwybodaeth Amlddiwylliannol

Cofnodion ac Adroddiadau

Bydd yr Arweinydd yn cadw cofnod o'r wybodaeth a geir gan rieni ac yn cadw cofnod o ddatblygiad pob plentyn. Mae eich plentyn yn cael ei asesu'n barhaus yn ystod ei amser yn y Cylch. Mae'r Arweinydd yn hapus i drafod datblygiad pob plentyn gyda rhieni ac i rannu'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu.

Byddwn yn paratoi adroddiad blynyddol ar eich cyfer (ac eithrio'r plant sy'n mynychu'r sesiynau prynhawn o Uned Feithrin Ysgol Iolo Morganwg). Byddwn yn rhannu'r adroddiad gyda'r Ysgol benodol.

Disgyblaeth

Mae gan y Cylch bolisi ar reoli ymddygiad sy'n sicrhau na ddefnyddir cosb gorfforol wrth reoli unrhyw blentyn. Bydd ymddygiad sy'n achosi pryder yn cael ei drafod gyda'r rhieni a byddwn yn datblygu cynllun gweithredu ar y cyd yn unol ag oedran, datblygiad ac anghenion unigol y plentyn.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Dwyieithrwydd

Mae Cylch Meithrin y Bont-faen yn Gylch Meithrin Cymraeg. Ein nod yw cyflwyno'r Gymraeg yn naturiol i'r plant trwy chwarae a sgwrsio gan obeithio y byddwch yn dewis eu danfon i Ysgol lolo Morganwg. Os hoffech ymweld â'r ysgol byddai'r Arweinydd yn fodlon gwneud trefniadau, neu cysylltwch â'r ysgol - 01446 772658. Cofiwch fod 70% o boblogaeth y byd yn gallu siarad mwy na dwy iaith ac mae'r rhan fwyaf o blant y byd yn gallu siarad mwy nac un iaith erbyn iddynt gyrraedd 5 oed. Mae ymchwil wedi profi fod plant ifanc yn dysgu ail iaith heb unrhyw drafferth o gwbl. Profodd yr ymchwil hefyd fanteision dysgu mwy nac un iaith yn gynnar. Yn y Cylch, fe fydd y plant yn dysgu Cymraeg drwy chwarae a dysgu, cerddoriaeth, symudiadau a chaneuon. Gyda'i gilydd fe fydd y dulliau gwahanol yn gwella eu dealltwriaeth o'r iaith.

Moddion

Os oes rhaid i'ch plentyn gymryd moddion o unrhyw fath, rhaid gwneud trefniadau gyda'r staff i wneud hynny ac arwyddo'r ffurflen briodol gyda'r staff. Fe fyddem ond yn fodlon rhoi moddion i'ch plentyn mewn argyfwng ac os yw wedi'u rhagnodi gan y meddyg. Ni fyddwn yn rhoi moddion sydd wedi dyddio ar unrhyw achlysur. Mae'r Cylch yn cadw llyfr fydd yn nodi'r amser diwethaf y cymerodd y plentyn foddion.

Salwch Plentyn

Os bydd eich plentyn yn cael ei daro'n sâl yn ystod sesiwn o'r Cylch, fe fydd y staff yn eich hysbysu o hyn ar unwaith ar y ffôn ar rifau yr ydych wedi'u rhoi. Felly mae'n bwysig bod y rhifau hyn yn gyfredol.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Os bydd y staff o'r farn fod eich plentyn yn dioddef o glefyd trosglwyddadwy, byddwn yn gofyn i chi gysylltu â'ch meddyg teulu. Fe fyddwn yn hysbysu rhieni'r plant eraill yn y Cylch fel y bônt yn barod i edrych am symptomau yn eu plentyn. Ni ddylid anfon eich plentyn i'r Cylch am 2 ddiwrnod ar ôl i'ch plentyn dioddef dolur rhydd. Os yw'ch plentyn yn dioddef dolur rhydd yn ystod sesiwn o'r Cylch fe fyddwn yn cysylltu â chi er mwyn i chi gasglu'ch plentyn o'r Cylch.

Bwyd a diod

Mae pob plentyn yn cael diod o laeth a rhywbeth ysgafn i fwyta hanner ffordd trwy'r bore, a diod yn ystod y prynhawn. Felly does dim angen iddynt ddod â chreision, losin neu fwyd gyda nhw i'r Cylch. Gallwn gynnig diod o ddŵr os oes rheswm arbennig pam na ddylent yfed llaeth. Rhowch wybod i ni am hyn os gwelwch yn dda. I'r plant sydd yn aros am ginio yn y Cylch a fyddech yn sicrhau bod pecyn iâ yn y blwch cinio.

Dathlu Pen-blwydd

Rydym yn ceisio dathlu pen-blwydd pob plentyn. Gofynnwn i chi ddod â chacen ben-blwydd i'r Cylch i'ch plentyn gael dathlu'r achlysur gyda ffrindiau. A fyddech mor garedig â pheidio dod â chacen siocled os gwelwch yn dda.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Dysgu Cymraeg

Os ydych yn medru rhywfaint o Gymraeg, ceisiwch ei defnyddio ar bob cyfle gyda'ch plentyn ac yn y Cylch wrth gwrs. Efallai bod gennych ddiddordeb mewn dysgu Cymraeg hefyd. Mae yna nifer o ddosbarthiadau Cymraeg yn yr ardal ac rydym yn cadw gwybodaeth yn y Cylch am hyn. Gofynnwch i'r arweinydd am fwy o fanylion. Mae nifer o raglenni arbennig o dda ar S4C ar gyfer plant a dysgwyr. Yn ogystal â hyn mae cylchgrawn Cymraeg i blant ar gael sef 'Wcw'. Mae modd inni archebu llyfrau a thapiau Cymraeg hefyd.

Ysmygu

Ni chaniateir ysmygu yn adeilad y Cylch nac yn yr awyr agored sydd yn rhan o'r adeilad.

Parcio

Mae mynediad i'r Cylch tu ôl i'r Ganolfan Chwaraeon. Mae llwybr troed penodol yno. Cofiwch mai hwn yw'r unig fynediad i'r Cylch. Mae lle parcio ar gael yn y Ganolfan Chwaraeon. Y lle agosaf i barcio i'r mynediad yw ar y chwith wrth yrru i mewn i'r Ganolfan Chwaraeon.

Trefn Canmol a Chwyno

Mae'r Cylch yn croesawu sylwadau gennych ar y gwasanaeth a gynigir, yntau yn bersonol neu yn ysgrifenedig at gadeirydd y pwyllgor rheoli. Gallwch hefyd wneud sylwadau trwy lenwi'r Ffurflen Werthuso sydd ar gael yn y Cylch. Os oes gennych gŵyn am y ddarpariaeth, mae'r drefn wedi ei nodi yn y Llawlyfr Gwirfoddolwyr o dan y Polisi Canmol a Chwyno sydd ar gael yn y Cylch.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Os am gwyno ymhellach i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, gellir gwneud hynny trwy gysylltu â'r Swyddfa leol, sef Swyddfa Ranbarthol y Fro a'r Cymoedd, Uned 4/5 Charnwood Court, Billingsley Road, Parc Nantgarw CF15 7QZ (ffon: 01443 848528).
Cedwir pob gohebiaeth, nodiadau ac adroddiadau ynglŷn â chwyn gan y Cylch a byddant ar gael i ASGC. Os bydd y gŵyn yn ymwneud â honiad o gam-drin plentyn, fe fydd y Cylch yn trafod y mater yn unol â'r broses a gytunwyd yn lleol ynglŷn ag amddiffyn plant.

Cyfansoddiad a Pholisïau'r Cylch

Mae copïau cyflawn o'r Cyfansoddiad a holl bolisïau'r Cylch ar gael yn y Cylch i'w darllen, neu i'w benthyg i fynd adref i'w darllen - holwch yr Arweinydd am gopi.

Ymweliadau Addysgol

Credwn ei bod yn bwysig i fynd ar ymweliadau tu allan i'r Cylch yn rheolaidd. I wneud hyn, gofynnwn am gymorth gyda thrafnidiaeth ac i gynorthwyo ar yr ymweliad oddi wrth rieni/ gofalydd. Cyn medrwn fynd â'ch plentyn o'r Cylch, rhaid i ni gael eich caniatâd chi, felly cofiwch lofnodi'r ffurflen gyda'r Arweinydd.

Codi Arian

Os ydym am sicrhau Cylch Meithrin effeithiol rhaid i ni sicrhau arian digonol ar gyfer prynu offer newydd, talu cyflogau, mynd ar deithiau ac ati. Disgwyliwn ichi ein cynorthwyo gyda'r gwaith - mae'n gallu bod yn hwyl!!

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Pwyllgor Rheoli'r Rhieni

Mae gennym Bwyllgor Rhieni sy'n gyfrifol am yr holl waith o redeg y Cylch o ddydd i ddydd. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod mor aml ag sydd angen ond o leiaf unwaith bob tymor. Rydym yn annog pob rhiant i ddod i'r cyfarfod a gynhelir, er mwyn mynegi eich barn, mynegi safbwynt, cwyno, rhoi awgrymiadau, syniadau ac ati. Fe fydd y Pwyllgor hefyd yn paratoi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol a fydd hefyd ar gael i'r rhieni. Bydd aelodaeth yn agored i rieni neu warcheidwad bob plentyn sy'n mynychu'r Cylch.

Cyfarfod Cyffredinol

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol bob blwyddyn ym mis Mehefin neu cyn gynted â phosib wedi hynny. Yno fe gyflwynir yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon am y flwyddyn flaenorol. Bydd pleidleisio ar sail un teulu - un bleidlais. Etholir y Swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod a byddant yn dal mewn swydd hyd ddiwedd y Cyfarfod Cyffredinol nesaf.

Cylch Ti a Fi

Cylch ar gyfer rhieni a'u plant hyd at oed ysgol yw hwn. Mae pob rhiant yn helpu yn ystod y sesiynau drwy baratoi diodydd, tacluso ar y diwedd ayyb. Mae'r plant yn mwynhau chwarae gyda theganau ac ar yr un pryd, mae rhieni'n cael cyfle i ddod i adnabod ei gilydd. Mae'n gyfle hefyd i rieni di-Gymraeg ddysgu Cymraeg gyda'u plant. Cysylltwch â'r Arweinydd am fanylion pellach.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Gofal Dydd a Ffioedd

Mae'r Cylch yn cynnig y sesiynau canlynol i ofalu am eich plentyn sef:

Sesiwn y bore - 9.00 am - 12.00pm
Sesiwn y prynhawn - 12.00 pm - 3.00 pm
Sesiwn Dydd (Sesiwn y bore + sesiwn y prynhawn) - 9.00am - 3.00pm

Mae'r Cylch wedi cynnig gofal ar ddechrau a diwedd dydd i blant sy'n mynychu Uned Feithrin Ysgol Iolo Morganwg. Bydd y plant sy'n derbyn y gofal hwn o fis Medi 2008 yn cael eu trosglwyddo o'r ysgol i'r Cylch yn y prynhawn ar fws mini. Bydd aelod o staff y Cylch yn teithio gyda nhw. Bydd ffi ychwanegol am y gwasanaeth bws.

Mae ffioedd yn cael eu harolygu yn gyson gan y Pwyllgor Rhieni. Mae nodyn o'r ffioedd diweddaraf yn llawlyfr y rhieni. Mae'r tâl am eich plentyn yn daladwy fesul hanner tymor ymlaen llaw. Fe fyddwch yn derbyn anfoneb oddi wrth Drysorydd y Cylch yn rhoi gwybod faint sydd yn daladwy. Os bydd eich plentyn yn sâl gartref disgwylir i chi dalu'r tâl sy'n ddyledus ond os yw eich plentyn yn yr ysbyty, ni ddisgwylir i chi dalu'r ffi am y cyfnod y bydd eich plentyn yn absennol. Trafodwch gyda'r Trysorydd am y ffyrdd gwahanol o dalu os oes problem. Mae'r Cylch hefyd yn derbyn tocynnau Busy Bees. Mae angen arnom bythefnos o rybudd, os yw'n bosib, os nad oes angen lle pellach i'ch plentyn.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Mudiad Ysgolion Meithrin

Nod

Nod Ysgolion Meithrin yw rhoi cyfle i bob plentyn dan oed ysgol yng Nghymru fanteisio ar brofiadau meithrin trwy gyfrwng y Gymraeg.

Egwyddorion

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn credu:

* Bod yr iaith Gymraeg o fantais i blant. Byddwn yn trefnu cymaint â phosib o oriau cyswllt a hi a defnyddio'r Gymraeg, a hi yn unig, yng ngweithgareddau'r Cylchoedd.

* Bod chwarae yn hanfodol i ddatblygiad plant yn gorfforol, yn emosiynol, yn ieithyddol, yn gymdeithasol ac yn ddeallusol. Byddwn yn sicrhau pob cyfle ar gyfer dysgu trwy chwarae yn y Cylchoedd.

* Bod plant, waeth beth fo'u hangen, yn elwa ar brofiad Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi. Byddwn yn croesawu plant ag anghenion arbennig i'r Cylchoedd.

* Bod y teulu yn sylfaen i ddatblygiad plant. Byddwn yn sicrhau pob cyfle i deuluoedd gefnogi profiadau meithrin eu plant ac yn cynnig cefnogaeth ieithyddol a chymdeithasol i deuluoedd trwy weithgareddau'r Cylch Ti a Fi a'r Cylch Meithrin.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

* Bod gan y plant yr hawl i ddisgwyl y bydd yr oedolion sydd yn gofalu amdanynt yn eu hamddiffyn rhag camdriniaeth o bob math. Bydd y Cylchoedd Meithrin a'r Cylchoedd Ti a Fi yn cydweithio â'r Gwasanaethau Statudol i amddiffyn plant.

* Bod dilyniant addysg Gymraeg yn hanfodol i bob plentyn sy'n mynychu ein Cylchoedd. I'r perwyl hwn, rydym yn galw am sefydlu Ysgol Gymraeg o fewn cyrraedd hwylus i bob plentyn.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

CYLCH MEITHRIN Y BONT-FAEN

Ein Datganiad o Werthoedd Cylch Meithrin

Mae'r Cylch Meithrin yn credu bod gan bob plentyn hawl i:-

* Dderbyn gofal, cariad a pharch

* Derbyn sylw a chefnogaeth priodol a fydd yn cwrdd â'i h/anghenion arbennig

* Manteisio ar bob cyfle i chwarae

* Derbyn arweiniad a fydd yn ei g/alluogi i fod yn aelod cyflawn o'i ch/gymdeithas

* Cael ei ysgogi i ddatblygu i'w ll/lawn botensial

* Manteisio ar brofiadau meithrin trwy gyfrwng y Gymraeg.

* Cael ei th/drin yn gyfartal waeth beth fo'i hil, lliw, crefydd, cenedl neu gefndir cymdeithasol

Bydd y Cylch Meithrin yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni* i hyrwyddo'r gwerthoedd hyn.

*Yn "Llawlyfr y Gwirfoddolwyr", cyfeiria 'rhiant/rhieni' at y person/personau sy'n gyfrifol am y plentyn.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

CYLCH MEITHRIN Y BONT-FAEN

Ein Datganiad

* Mae Cylch Meithrin Y Bont-faen yn cynnig cyfle i'w blant ddysgu drwy chwarae mewn amgylchedd diogel ac ysgogol, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Yr ydym yn anelu at gynorthwyo ein plant i ddatblygu eu potensial. Am y 4 blynedd diwethaf rydym wedi gweithredu'r Cyfnod Sylfaen.

* Mae'r chwarae yn cael ei gynllunio ac y mae'r dysgu yn cynnwys y saith Maes Dysgu sef Iaith, Llythrennedd a sgiliau Cyfathrebu, Datblygiad Personol a Cymdeithasol a Lles, Datblygiad Mathemategol, Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, Dealltwriaeth Amlddiwylliannol, Datblygiad Corfforol a Datblygiad Creadigol.

* Yr ydym wedi cofrestru i ofalu am hyd at 24 o blant mewn un sesiwn ar hyn o bryd yn Neuadd Ramoth , ar yr amod fod gennym ni un oedolyn ar gyfer chwech o blant (dwy flwydd a hanner oed ac un oedolyn i wyth o blant (tair blwydd oed). Gofalwn am fechgyn a merched ac yr ydym yn gofalu ein bod yn hybu cydraddoldeb hiliol a chyfle cyfartal.
Yr ydym yn fodlon gofalu am blant gydag anghenion arbennig ac yn fodlon cydweithio gyda rhieni a chymdeithasau allanol i sicrhau fod y plant arbennig hyn yn cael cyfle llawn i ddysgu drwy chwarae i ddatblygu i'w potensial llawn. Gallwn ofalu am blant o 2.5 hyd at 5 mlwydd oed.

* Mae gennym gyflenwad o adnoddau da sy'n cael eu harchwilio yn gyson am lendid a diogelwch. Mae'r adnoddau yma yn addas i'r plant fydd o dan ein gofal. Mae'r plant yn cael

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

cynnig tost, ffrwythau sych neu ffres, dŵr neu laeth yn ystod y bore, a diod yn y prynhawn Os oes gan blentyn broblem gyda'r bwyd e.e. alergedd, mae darpariaeth arbennig ar eu cyfer nhw.

* Mae cynlluniau gwaith yn cael eu paratoi yn dymhorol neu bob hanner tymor. Mae'r cynlluniau yn addas ar gyfer gofynion y plant yn ein gofal. Mae pob gweithgaredd yn cael ei weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond fe ddefnyddir Saesneg yn ogystal os yw'r sefyllfa yn codi e.e. plentyn sy'n amlwg heb ddeall. Yr ydym yn gwneud yn siŵr y cynhelir gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Credwn fod chwarae yn yr awyr agored o les i blant.

*Cynigir y gofal hwn o dan amodau'r cytundeb.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

CYLCH MEITHRIN Y BONT-FAEN

Amserlen y bore

9.00am Cychwyn/Cyrraedd/Croeso

Rhowch help i'ch plentyn hongian ei got/chot, bag/fag ar y bachyn.

Rhowch help i'ch plentyn chwilio am ei enw/henw a gosod ar bwys y rhif priodol (Siaradwch am y rhif).

Chwarae Rhydd - gwelir isod

9.20am Bore Da
Cofrestr. Sgwrs am y tywydd. Sgwrsio'n gyffredinol neu efallai am y thema briodo l- ond fel arfer y plant sy'n gosod y drefn!)

9.30am Chwarae Rhydd (MEWN AC ALLAN)

10.30am Amser Tacluso - plant i helpu

10.40am Stori gydag aelod o'r staff (tra bo'r staff eraill yn gorffen tacluso a pharatoi bwyd a diod)

10.50am Golchi a sychu dwylo

10.55am Cael bwyd a diod (sgwrs dawel gyda'i ffrindiau/staff) Fel arfer - tosta resins, ambell waith bisged a/neu ffrwyth.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

11.10am Gweithgaredd Corfforol: beiciau/peli (tu allan os yw'n braf), dawns. Parasiwt, cwrs rhwystro, drama

11.30am Canu/offerynnau cerdd

11.45am Gwisgo cotiau/unrhyw waith i fynd allan

11.55am Hwyl Fawr (amser i fynd adref)

Cofiwch ond rhwng 9.00am a 12.00pm mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol am eich plentyn/plant.

<u>Amserlen y Prynhawn</u>

12.00pm Cychwyn/Cyrraedd/Croeso

Cofrestr/sgwrs

Chwarae corfforol - naill ai allan neu mewn yn dibynnu ar y tywydd

12.25p Golchi dwylo yn barod i ginioCinio(mae hyn yn cymryd hanner awr/awr yn dibynnu ar ba mor hir mae'r plant yn bwyta!!) Mae'r staff yn eistedd gyda'r plant ac yn bwyta gyda nhw (Mae'r amser yma yn gyfle gwych i gymdeithasu a dysgu sut i ymddwyn wrth y bwrdd)

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

1.15pm Chwarae Rhydd:
Toes, tŷ bach twt, celf a chrefft, blociau, peintio, trên, fferm, duplo
Grwpiau bach - er mwyn chwarae gêm, pensiliau/creonau/sialciau/coginio ac ati.

Edrych ar lyfr, gwrando ar stori yn unigol neu mewn grŵp bach, gwisgo fyny, dŵr/tywod, gemau bwrdd (grwpiau bach) pensiliau, creonau, coginio, chwarae rôl: Siop, swyddfa, Clinig babanod, milfeddyg, Llyfrgell ac ati).

2.10pm Amser tacluso - plant i helpu

2:15pm Stori/fideo/sgwrs

2.25pm Diod

2.35pm Gweithgaredd Corfforol
(yn dibynnu ar y tywydd - beiciau/peli ac ati tu allan)

2.55pm Canu/offerynnau cerdd
(plant yn arwain)

3.00pm Hwyl fawr /Amser i ni fynd adref

<u>Cofiwch dim ond rhwng 12.00pm a 3.00pm mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol am eich plentyn/plant</u>

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image